John Richard Jones, Ramoth, 1765–1822

Gweinidog (B) a sylfaenydd y Bedyddwyr Albanaidd yng Nghymru

Mudiad J.R. Jones o Ramoth

Daeth storom fawr o Ramoth i ladd y g'lomen lon,
Eglwysi Bedyddiedig ga'dd brofi'r awel hon;
Pêr lysiau gardd paradwys a ga'dd eu curo i lawr,
A'r g'lomen wen a glwyfwyd gan rym y storom fawr,

Allan o Seren Gomer*, 1853*

Ganwyd John Richard Jones yn un o bedwar o blant yn y Bryn Melyn, Llanuwchllyn, Meirionnydd, ar 13 Hydref 1765. Mynychai ei rieni, John Richard ac Elisabeth, yr Hen Gapel, Rhosyfedwen, Llanuwchllyn, a magwyd y plant yn y ffydd. Fe gafodd J.R. Jones chwe mis o ysgol pan oedd yn ei arddegau, a hynny wrth draed y Parch. Thomas Davies, gweinidog yr Hen Gapel. Ond yr oedd ganddo syched am addysg a gwybodaeth a phenderfynodd ddysgu Saesneg er mwyn gallu darllen rhagor o lyfrau. Byddai ganddo lyfr yn gydymaith iddo ble bynnag yr âi – wrth fugeilio ac wrth drin y mawn. Ym 1781 daeth y Llif Mawr o ganlyniad i lawogydd gan ddinistrio dau ar bymtheg o dai yn ardal Bwlch y Groes, a boddwyd un wraig. Dywedid bod y digwyddiad hwn, ynghyd â marwolaeth ei fam, yn allweddol yn ei dröedigaeth. Pan oedd yn ddeunaw oed fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Hen Gapel a dechreuodd bregethu. Ond wedi iddo glywed rhai Bedyddwyr yn pregethu, fe'i hargyhoeddwyd o ddilysrwydd bedydd trochiad.

Fe'i bedyddiwyd ef yn afon Prysor, Trawsfynydd, gan y Parch. Henry Davies, Llangloffan, ym 1788, a'r flwyddyn ddilynol fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar yr eglwys ym Meirion a gynhwysai gynulleidfaoedd yn Ramoth, Trawsfynydd, Dolgellau, Harlech, Abermaw a Llanuwchllyn. Safai capel Ramoth ym mhlwyf Llanfrothen ar lan y Traeth Mawr, a diflannodd pan

adeiladwyd y cob ym Mhorthmadog. Am gyfnod bu J.R. Jones yn gweithio'n llawen gyda Chymanfaoedd Bedyddwyr Cymru ac yn un o'u gwŷr cedyrn, ynghyd â Christmas Evans ac Edmund Francis. Ond daeth tro ar fyd a chefnodd J.R. Jones ar y Bedyddwyr ym 1798 gan gychwyn ei enwad ei hun, sef y Bedyddwyr Albanaidd. Parodd hyn gythrwfl a drwgdeimlad yn yr eglwysi Bedyddiedig, oherwydd iddo ddod o dan ddylanwad Archibald Maclean, un o sylfaenwyr achos y Bedyddwyr yn yr Alban, a'i waith. Wedi darllen rhai o'i lyfrau penderfynodd J.R. Jones fod yr eglwysi yng Nghymru ar gyfeiliorn a bod angen eu diwygio.

Tua diwedd 1798 cynhaliwyd cyfarfod y 'Gabidwl Fawr' yn Ramoth lle y penderfynwyd gadael Bedyddwyr Cymru ac ymuno â'r Bedyddwyr Albanaidd. Rhyw 350 o bobl oedd yn yr eglwysi a ymwahanodd. Cydweithiodd â Christmas Evans ar y dechrau, ond erbyn 1802 yr oedd y gŵr hwnnw wedi dychwelyd at Fedyddwyr Cymru. Credai J.R. Jones fod angen mynd yn ôl at ddysgeidiaeth syml y Testament Newydd am yr Eglwys. Mynegodd ddaliadau'r mudiad newydd yn glir yn *Y Grynodeb* a argraffwyd gyntaf ym 1802. Credent mewn cynulleidfaoliaeth a gweinyddu bedydd trochiad ar gredinwyr. Ym mhob eglwys yr oedd angen henuriaid neu weinidogion; gweinyddu swper yr Arglwydd bob Sul; cynnal cariad wleddoedd; golchi traed; adfer y 'gusan sanctaidd'; arfer ympryd a gweddi wrth drafod materion eglwysig; cyfrannu at reidiau'r saint a gofalu am y tlodion. Arweiniodd ei bobl yn gydwybodol am bedair blynedd ar hugain gan eu bugeilio'n ofalus. Cyhoeddodd nifer o lyfrau, ac yn eu plith *Casgliad o Salmau a Hymnau*. Bu farw 27 Mehefin 1822.